

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful CF47 8AN

Prif Ffôn: 01685 725000

www.merthyr.gov.uk



CYNGOR LLAWN - ADRODDIAD GWYBODAETH

Dyddiad Ysgrifennu	11 ^{eg} Medi 2020
Awdur yr Adroddiad	Pennaeth y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol / Perfformiad a Chraffu
Gwasanaeth	Perfformiad a Chraffu
Wedi'i Eithrio/Heb ei Eithrio	Heb ei Eithrio
Dyddiad y Pwyllgor	

*At sylw: Y Maer, Boneddigion
a Boneddigesau*

Adroddiad Craffu Blynyddol 2019 / 2020

1.0 CRYNODEB O'R ADRODDIAD

- 1.1 Mae Craffu yn swyddogaeth i Gynghorau yng Nghymru a Lloegr, ac fe'i cyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gan greu swyddogaethau Gweithredol a Chraffu ar wahân mewn Cynghorau. Cryfhawyd rôl craffu drwy basio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- 1.2 Mae rôl Craffu yn cynnwys monitro perfformiad; herio cynigion gwariant y Cyngor; adolygu gwasanaethau; cyfrannu at ddatblygu polisi; archwilio gwaith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol eraill a hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd â'r broses ddemocrataidd.
- 1.3 Cyflawnir y swyddogaeth graffu o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) gan chwe phwyllgor craffu. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys Aelodau Etholedig (neu Gynghorwyr) nad ydynt yn rhan o Weithrediaeth (Cabinet) y Cyngor; ynghyd â chynrychiolwyr cyfetholedig.
- 1.4 Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cyngor, a phartïon eraill sydd â diddordeb, o rôl y pwyllgorau craffu a'u gwaith yn ystod blwyddyn ddinesig 2019/20.

2.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cyngor, a phartïon eraill sydd â diddordeb, o rôl y pwyllgorau craffu a'u gwaith yn ystod blwyddyn ddinesig **2019/20**.
- 2.2 Mae Trosolwg a Chraffu (y cyfeirir atynt yn aml fel "craffu") yn swyddogaeth Cynghorau yng Nghymru a Lloegr ac fe'i cyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gan greu swyddogaethau Gweithredol a Chraffu ar wahân mewn Cynghorau. Yng Nghymru cafodd y swyddogaeth graffu ei hymestyn ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- 2.3 Yn gyffredinol, mae pwyllgorau craffu llywodraeth leol yn gweithredu mewn modd tebyg i'r pwyllgorau dethol sy'n cefnogi Senedd y DU. Maent yn cynnwys cynghorwyr anweithredol o bob grŵp gwleidyddol (yn gymesur â chydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y Cyngor), ac maent yn cyfarfod yn gyhoeddus ac yn breifat er mwyn:
- Helpu'r Weinyddiaeth i ddatblygu ac adolygu polisïau;
 - Profi perfformiad y Cyngor a chynnig cyngor ar gyfer gwella;
 - Craffu cyn penderfynu ar benderfyniadau y mae'r weinyddiaeth ar fin eu gwneud;
 - O bryd i'w gilydd galw i mewn penderfyniadau y mae'r weinyddiaeth wedi'u gwneud yn ddiweddar er mwyn eu harchwilio;
 - Cynnig llwyfan i ddinasyddion a grwpiau dinasyddion gynrychioli eu pryderon neu eu syniadau ar gyfer gwella.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor.

- 2.4 Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn amlinellu bod gan waith craffu pedwar 'conglfaen', sef ei fod:
- Dan arweiniad 'llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n berchen ar y rôl graffu;
 - Yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r weithrediaeth, gan ddwyn penderfynwyr i gyfrif;
 - Yn cynrychioli barn a phryderon y dinesydd;
 - Yn arwain at wella gwasanaethau cyhoeddus.
- 2.5 Cefnogir y swyddogaeth Graffu yn y Cyngor gan y timau Gwasanaethau Democrataidd a Pherfformiad a Chraffu. Gan weithio'n agos gyda'i gilydd, mae'r tîm cymorth yn sicrhau bod y swyddogaeth graffu'n cael ei chyflawni yn unol â gofynion statudol. Mae'r gwaith craffu'n cynnwys Aelodau Etholedig, aelodau cyfetholedig a phobl ifanc; mae'r rhain i gyd yn chwarae rhan werthfawr yn y cyfarfodydd, pob un yn dod â safbwynt gwahanol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo gwaith y pwyllgorau craffu.
- 2.6 Bydd Aelodau Etholedig yn cofio'r adroddiad 'Penodi i Bwyllgorau 2019-2020' a gyflwynwyd i'r Cyngor ar y 15^{fed} Mai 2019, sef cyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y penodiadau i bwyllgorau a'r cylch cyfarfodydd.

3.0 DIWEDDARIAD AM Y CAMAU GWEITHREDU

3.1 Amlinellodd adroddiad Archwilio Cymru (sef Swyddfa Archwilio Cymru gynt) ['Trosolwg a Chraffu: Addas i'r Dyfodol? – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful'](#) 6 argymhelliad (yn ogystal â 2 argymhelliad o adroddiad cysylltiedig gan Swyddfa Archwilio Cymru). Yn dilyn hyn, gwnaed newidiadau i'r swyddogaeth Graffu yn y Cyngor. Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- aelodau'r pwyllgor yn cymryd mwy o berchnogaeth ar y flaenraglen waith ac agendâu cyfarfodydd;
- Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor craffu i'w dwyn i gyfrif;
- parhau i adolygu math a lefel y craffu sydd ei angen (gwerth am arian);
- gwaith yn cael ei wneud i ystyried effeithiolrwydd (e.e. adran 13); a
- datblygwyd Blaengynllun gwaith Cabinet ar gyfer 2019/2020; gyda fersiwn 2020/2021 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

3.2 Mae Tabl 1 (isod) yn cynnig trosolwg cryno o rai o'r 'penawdau' sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth graffu (ac eithrio cyfarfodydd pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd) dros flwyddyn ddinesig 2019/2020.

	Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol	Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd ¹	Gwasanaethau Cymdeithasol	Gwasanaethau ¹² Cymdogaeth	Cyfanswm Perfformiad
Canran y cyfarfodydd a drefnwyd a gwblhawyd	100% (7/7)	100% (7/7)	86% (6/7)	100% (7/7)	75% (5/7)	92% (32/35)
Nifer yr adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor	16	20	18	20	11	85
Nifer y penderfyniadau Cabinet a drafodwyd o dan y broses 'galw i mewn'	0	0	0	0	0	0
Nifer y cynrychiolwyr partner allanol yn mynychu cyfarfod craffu	1	2	2	3	0	8
Nifer y grwpiau gorchwyl a sefydlwyd yn 2019/2020	1	1	0	0	1	3
Nifer yr adroddiadau grwpiau gorchwyl wedi'u cwblhau a'u cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried	0	0	1	0	2	3

Tabl 1: Canlyniadau allweddol a gofnodwyd drwy gyflawni swyddogaeth graffu'r Cyngor

¹ Cyfarfod wedi'i ganslo oherwydd gweithgarwch yr Etholiad

² Un cyfarfod wedi'i ganslo oherwydd gofyniad i ymateb i lifogydd a achoswyd gan stormydd Ellen a Jorge

- 3.3 Bydd hyn yn sail i ddadansoddiad pellach i fesur effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu yn y Cyngor wrth gyflawni argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru a amlinellir uchod.

4.0 PWYLLGOR CRAFFU: LLYWODRAETHU, PERFFORMIAD, NEWID BUSNES A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL



Cadeirydd:
Y Cyng. Tanya Skinner

4.1 Mae'r Gwasanaethau Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a Chorfforaethol yn cynnwys saith Cynghorydd ynghyd â phedwar aelod cyfetholedig (1 aelod o'r sector gwirfoddol; 1 aelod o Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful a 2 aelod cyhoeddus, di-bleidlais).

4.2 Sylwadau'r Cadeirydd

Mae heriau digynsail eleni, sef Storm Dennis a'r Coronafeirws, wedi golygu nad ydym wedi gallu cwmparu pob rhan o'n rhaglen waith, ac mae'n siŵr y bydd canlyniadau digwyddiadau o'r maint hwn yn cael eu teimlo am lawer mwy o fisoedd neu flynyddoedd i ddod.

Eleni, roeddem yn gallu parhau i weithio ar y 'Bywyd Gwaith' a'r 'Dechrau Gorau'. Yn dilyn y gwaith a wnaed gan y pwyllgor wrth graffu ar y copi drafft o'r 'Strategaeth Trechu Tlodi' eleni, roeddem yn gallu ei ddwyn yn ôl at waith craffu i adolygu cynnydd.

Gwelodd argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru ar gyfer 'Cymorth y Cyngor i'r Trydydd Sector' gynnydd sylweddol eleni hefyd, gyda gweithgor bach wedi'i ffurfio a'r potensial i brosiect peilot gael ei ddatblygu.

Dechreuodd y gwaith o ymgysylltu ymhellach ag Aelodau'r Pwyllgor i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio'r Rhaglen Waith ar gyfer eleni. Fel Cadeirydd, trefnais ac arweiniais gyfarfod ar ffurf gweithdy ar gyfer y pwyllgor ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd hyn yn ein galluogi i lunio a phennu rhaglen waith gydweithredol.

Er ein bod wedi parhau i wneud cynnydd ar swyddogaeth drosolwg y pwyllgor, mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a bydd angen ei ystyried fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o swyddogaethau craffu o fewn yr Awdurdod Lleol.

Rwyf yn dal yn obeithiol y gallwn ddod yn rhan o unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo pwysigrwydd craffu. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig ein bod yn cynnig dull amgen i aelodau o'r cyhoedd ddod ag eitemau i'n sylw. Rwy'n credu y gallai bod allan yn y gymuned fod yn newid sylweddol a chadarnhaol yn y ffordd yr ydym yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn y dyfodol.

4.3 Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019/2020

Mae rôl a chylch gwaith y pwyllgor craffu Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol yn eang ac amrywiol. Dros y flwyddyn ddinesig; mae'r

Pwyllgor wedi cael adroddiadau ar amrywiaeth o bynciau a gafodd eu hadolygu a'u harchwilio. Rhestrir detholiad o'r rhain isod:

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol DRAFFT y Cyngor;
- Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Adroddiad perfformiad thematig sy'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcan lles Byw yn Dda'r Cyngor fel yr amlinellir yn Ffocws ar y Dyfodol: lles yn ein cymuned;
- Rhaglen Newid y Cyngor;
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol DRAFFT y Cyngor ar gyfer 2018/19;
- Strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor;
- Adroddiad perfformiad thematig sy'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcan lles Dechrau Gorau'r Cyngor fel yr amlinellir yn Ffocws ar y Dyfodol: lles yn ein cymuned;
- Argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr allanol (SAC, ASGC, ESTYN, Llywodraeth Cymru ac ati); ac
- Adroddiad perfformiad thematig sy'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcan lles Bywyd Gwaith y Cyngor fel yr amlinellir yn Ffocws ar y Dyfodol: lles yn ein cymuned.
- Adnoddau Dynol

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cyd-Aelodau craffu; swyddogion a phartneriaid sydd oll wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor yn ystod 2019/20, yn enwedig o ystyried yr heriau sylweddol a'r colledion trasig a ddioddefwyd gennym eleni.

4.4 Gwaith ychwanegol a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn ddinesig 2019/2020

Mae'r grŵp gorchwyl a sefydlwyd yn parhau i ddatblygu'r gwaith sy'n edrych ar y statws presennol o ran 'Cymorth y Cyngor i'r Trydydd Sector'. Bydd y gwaith hwn yn creu proses y gellir ei ailadrodd, y gall y Cyngor ei defnyddio i ystyried gwerth am arian a model 'addas ar gyfer y dyfodol' o wariant y trydydd sector yn erbyn canlyniadau.


4.5 Edrych ymlaen at 2020 / 2021

Eleni, bydd Rhaglen Waith y Pwyllgor yn cynnig y cyfle i graffu ar drawstoriad o bynciau er mwyn diwallu anghenion a gofynion sefydliadol a nodwyd (e.e. craffu ar ddiweddariadau thematig sy'n gysylltiedig â'r amcanion a nodir yn y Cynllun Lles Corfforaethol ac ystyried effaith digwyddiadau diweddar i nodi'r gwersi a ddysgwyd a fydd yn rhoi eglurder ynghylch sut mae angen i'r Cyngor newid sut mae'n gweithio. Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei graffu unwaith eto eleni).

Oherwydd yr amgylchiadau presennol a'r digwyddiadau trawsnewidiol sydd wedi digwydd eleni mae'n ddoeth addasu ein gofynion ar gyfer craffu eleni. Bydd digwyddiadau fel y pandemig a'r cyfyngiadau cloi cymunedol yn anochel yn effeithio ar dirwedd y dyfodol; ac mae angen i waith craffu ddangos cefnogaeth a hyblygrwydd er mwyn adlewyrchu hyn yn gywir. Rydym yn byw mewn cyfnod ansicr

iawn a gobeithio y gallwn ddefnyddio'r broses graffu i fyfyrion ar sut rydym wedi gorfod newid fel sefydliad er mwyn cynorthwyo ein hadferiad. Nawr yn fwy nag erioed mae angen y 'ffrind beirniadol',

5.0 PWYLLGOR CRAFFU: DYSGU A GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL



Cadeirydd:
Y Cyng. Harvey Jones

5.1 Mae'r Pwyllgor Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn cynnwys chwe Chynghorydd ynghyd â saith eraill aelodau cyfetholedig (1 Aelod o Fforwm Ieuencid Bro Merthyr Tudful; 2 Aelod cyhoeddus, di-bleidlais; 1 Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgol; 1 Rhiant-Llywodraethwr (cynradd); 1 Aelod Rhiant-Llywodraethwr (uwchradd/arbennig); ac 1 Aelod Esgobaethol).

5.2 Sylwadau'r Cadeirydd

"Mae'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn parhau i roi llawer o flaenoriaeth i Addysg. Mae Aelodau wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau ffocws ar wella deilliannau addysg i'n holl ddysgwyr. Drwy adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu, mae aelodau'n parhau i gael trosolwg da o'r Gwasanaethau Addysg, er mwyn herio'r gwasanaethau hyn yn effeithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae aelodau craffu hefyd wedi dwyn rheolwyr i gyfrif am y gwasanaethau a'r canlyniadau y maent yn gyfrifol amdanynt".

"Rôl allweddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yw penderfynu a yw lefelau perfformiad yn dderbyniol mewn perthynas â'r adran Ddysgu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn penderfynu a yw polisi penodol yn addas i'r diben. Rhaid iddo hefyd fodloni ei hun bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â materion o bwys. Mae'r Pwyllgor hefyd yn casglu barn rhanddeiliaid penodol ac yn archwilio atebion posibl i faterion a nodwyd, fel rhan o adolygiad / ymchwiliad craffu. Un mater pwysig i aelodau'r Pwyllgor Craffu bob blwyddyn yw asesu a rhoi sylwadau ar y gyllideb arfaethedig a gwneud awgrymiadau i'r cabinet ynghylch gallu'r gyllideb arfaethedig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

Dogfen hanfodol, y mae aelodau Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn cyfeirio ati'n aml, yw'r Rhaglen Waith Graffu Flynyddol. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r pynciau a'r materion y bydd y Pwyllgor Craffu yn eu hystyried drwy gydol y flwyddyn. Drwy adolygu a blaenoriaethu'r pynciau a materion hyn, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn darparu agenda a arweinir gan aelodau. Mae'r Rhaglen Waith yn ddogfen ddeinamig ac fe'i hadolygir ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol; sicrhau bod ei gynnwys yn dal yn berthnasol a bydd yn ychwanegu gwerth at yr hyn y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei wneud. Ym mhob cyfarfod, bydd y Pwyllgor yn cytuno ar yr eitemau agenda ar gyfer eu cyfarfod nesaf.

Rhywbeth angenrheidiol yr oedd yn rhaid ei gynnwys yn y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2019/20 oedd yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol. Rhoddodd hyn gyfle i'r Aelodau Craffu roi ystyriaeth fanwl i Berfformiad ysgolion Merthyr Tudful yn ystod 2019/20.

Mae'n bleser gennyf nodi bod cynnydd o linell sylfaen Dosbarth Derbyn yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig ym mhob maes dysgu craidd, gyda rhwng 54% ac 87% o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mwy na'r disgwyl.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn dda, gyda chanran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y mwyafrif o ddangosyddion allweddol.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn dda ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol.

Ym mis Chwefror eleni, ystyriodd Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol y pwnc presenoldeb pwysig, er mwyn penderfynu pa gynnydd os o gwbl oedd wedi'i wneud yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Er bod presenoldeb yn ein Hysgolion Cynradd wedi dioddef gostyngiad bach iawn o 0.11% o gymharu â phresenoldeb 2017/18, cynyddodd presenoldeb ar draws ein hysgolion uwchradd 0.41% dros yr un cyfnod. Mae'r cynnydd hwn yn galonogol, gan fod y bwch presenoldeb rhwng ysgolion uwchradd Merthyr Tudful a'r cyfartaledd cenedlaethol, wedi parhau i gau ers 2016/17, a'n cyfradd wella oedd y trydydd gorau yng Nghymru yn 2018/19.

Yn anffodus, roedd cyfyngiad ar hyd yr adroddiad hwn yn golygu nad oedd yn bosibl cynnwys y rhan fwyaf o'r eitemau eraill y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20. Fodd bynnag, i orffen fy sylwadau, hoffwn sôn yn fyr am ddwy eitem a gynhwyswyd yn Rhaglen Waith 2019/20 a ystyriwyd gan aelodau o'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol. Cyfeiriaf yn fyr at y ddwy eitem hyn oherwydd eu pwysigrwydd i addysg ym Merthyr Tudful. Y ddwy eitem hynny yw:-

- Effaith Dechrau'n Deg a Darparwyr Addysg Gofrestredig ar ddeilliannau mewn ysgolion a gynhelir.

Roedd hyn yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor yn craffu ar adroddiad ar y gwaith o fewn y blyneddoddd cynnar i gefnogi'r gwaith o wella canlyniadau i ddisgyblion unwaith y byddant yn newid i'r ysgol gynradd.

- Effaith yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella (Cynllun Gwella Busnes)

Roedd hyn yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor yn craffu ar y blaenoriaethau a nodwyd gan yr Adran Ddysgu ar gyfer gwella, drwy broses hunanarfarnu'r Adran. Manteisiodd aelodau'r Pwyllgor ar y cyfle i graffu ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd, er mwyn rhoi barn ar gynnydd yr effaith.

Yn wir, bu'n ffrainc cadeirio'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor, yr aelod Cabinet dros Ddysgu a'r holl Swyddogion, sydd wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor dros y deuddeg mis diwethaf".

6.0 PWYLLGOR CRAFFU: GWASANAETHAU CYMDOGAETH, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

6.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad yn cynnwys saith Cynghorydd ynghyd â phedwar aelod cyfetholedig (1 aelod o'r sector gwirfoddol; 1 aelod o Fforwm Ieuencid Bro Merthyr Tudful; 2 aelod cyhoeddus, dibleidlais).

6.2 Sylwadau'r Cadeirydd



Cadeirydd:
Y Cyng.
Declan Sammon

"Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, mae tri o'r pedwar cyfarfod Pwyllgor diwethaf wedi'u canslo ond hyd at yr adeg hon, mae'r Aelodau wedi cael trosolwg da o'r portffolio Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad ac wedi gallu herio'r rheolwyr ar y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, tra hefyd yn gallu gwneud argymhellion drwy Grwpiau Gorchwyl.

Mae rhai o'r pynciau y mae'r Pwyllgor hwn yn edrych arnynt yn cynnwys casgliadau a gollwyd ar gyfer gwastraff ac ailgylchu cartrefi, gosod arwyneb newydd ar briffyrdd a thyllau yn y ffordd, glanhau strydoedd a'r Adroddiad Adfer Natur.

Gorffennon ni ein Grŵp Gorchwyl cyntaf, a edrychodd ar orwariant cyfalaf mawr ar ddau brosiect pwysig yn y fwrdeistref ac roeddem yn gallu gwneud argymhellion y dylid gweithredu gweithdrefnau mwy cadarn a llym, a allai helpu i arbed arian i'r Cyngor yn y dyfodol pan fydd yn ymgymryd â phrosiectau pwysig eraill.

Yn ddiweddar rydym wedi gorffen Grŵp Gorchwyl arall yn edrych ar Ffioedd Lleiniau a'r Cyfraddau Gostyngol o ran Cyfranogiad mewn Chwaraeon Tîm ym Merthyr Tudful. Bydd y Pwyllgor yn monitro effeithiau penderfyniadau a wneir gan y Cabinet, a fydd, gobeithio, yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cyfranogiad yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu parhau i greu Grwpiau Gorchwyl er mwyn y gellir nid yn unig edrych ar faterion pwysig yn fanwl ond hefyd fel y gallwn fynd ar drywydd hynny wedyn trwy roi argymhellion os ydym yn credu y gallent fod o gymorth i breswylwyr a'r Cyngor.

Credaf fod y Pwyllgor hwn wedi cydweithio'n dda iawn eto eleni a hefyd gyda'r Cabinet a swyddogion, drwy fod yn gyfaill beirniadol er mwyn i ni geisio llunio dyfodol Merthyr Tudful yn gadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad am eu sgiliau cefnogi a chwestiynu drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd i'r swyddogion a'r Cabinet am eu cyfraniadau.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i holl aelodau'r Tîm Perfformiad a Chraffu a'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth a'u harweiniad amhrisiadwy, nid yn unig y llynedd ond dros y tair blynedd diwethaf, wrth sicrhau bod y Pwyllgor hwn yn parhau i redeg yn esmwyth a hynny mae gan ei aelodau'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu rôl graffu.

6.3 Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019/2020

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi craffu ar nifer o bynciau dros gyfnod 2019-20; rhestrir sampl o'r pynciau a adolygwyd isod:

- Cyfleusterau Camera Gorfodi Tipio Anghyfreithlon.
- Rhestr Cynnal a Chadw Cerbydau.
- Casgliadau a Gollwyd ar gyfer Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu.
- Rheoli Carbon.
- Ailosod Priffyrdd a Thyllau yn y Ffordd.
- Glanhau Strydoedd.
- Cam Traffig y Cynllun Rheoli Ansawdd Aer.
- Adroddiad Adfer Natur.
- Hunan-werthuso Corfforaethol o ran Lles Amgylcheddol

6.4 Gwaith ychwanegol a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019/2020

Sefydlwyd grŵp gorchwyl i edrych ar Ffioedd Lleiniau a'r Cyfraddau Gostyngol o ran Cyfranogiad mewn Chwaraeon Tîm ym Merthyr Tudful, a fyddai'n ceisio dadansoddi'r ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad mewn cyfranogiad ac archwilio opsiynau posibl i atal y dirywiad hwn. Adroddodd y Grŵp Gorchwyl yn ôl i'r Pwyllgor ar y gwaith yr oeddent wedi'i wneud, ac yn dilyn trafodaeth gyda'r Pwyllgor Llawn cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet i'w ystyried ym mis Mai 2019.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl arall yn ddiweddarach y flwyddyn honno yn edrych ar Gyfraddau Ailgylchu a Mwy o Adrodd ar Lygod Mawr drwy Sianeli Nad ydynt yn Swyddogol. Mae'r Grŵp Gorchwyl wedi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed, ac ar ôl trafod gyda'r Pwyllgor Llawn cytunwyd y dylid cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet a fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

6.5 Edrych ymlaen at 2020 / 2021

Mae nifer o bynciau wedi'u nodi i'w hadolygu a'u harchwilio a bydd y rhain yn cael eu galw gerbron y Pwyllgor yn 2020-2021. Mae rhai o'r pynciau sydd i'w harchwilio a'u craffu gan Aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys Chwistrellu Chwyn, Tipio Anghyfreithlon, Perchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn, Cyfraddau Ailgylchu a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Ar bynciau'r llifogydd diweddar a phandemig y coronafeirws, rydym hefyd wedi gofyn am adroddiad ar sut y mae rhai o'r adrannau yn y Gwasanaethau Cymdogaeth wedi ymdopi â gweithio yn ystod argyfyngau, a fydd yn ymchwilio i'r anawsterau a wynebodd timau gwasanaeth rheng flaen yn ystod digwyddiadau diweddar.

7.0 PWYLLGOR CRAFFU: ADFYWIO A DIOGELU'R CYHOEDD

- 7.1 Mae'r Pwyllgor Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd yn cynnwys chwe Aelod etholedig a phedwar Aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor: (1 aelod o'r sector gwirfoddol; 1 aelod o Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Merthyr Tudful; 2 aelod cyhoeddus, di-bleidlais).



Cadeirydd:

Y Cyng. Julian Amos
Mai 2019 – Chwefror
2020

7.2 Sylwadau'r Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn cafodd y Pwyllgor Craffu Adfywio adroddiadau a diweddariadau ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r Adrannau Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd.

Gwnaeth yr adroddiadau rheolaidd a dderbyniwyd, ar ei Hunanwerthusiad Corfforaethol a sut yr oedd yn cwrdd â'r amcanion a osodwyd, argraff dda ar y Pwyllgor. Ar sawl achlysur, llongyfarchodd y pwyllgor y Prif Swyddog a'i staff am osod amcanion heriol iddynt eu hunain ac o ran parhau i fonitro eu perfformiad parhaus.

Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor ar y defnydd o deledu cylch cyfyng yn y Fwrdeistref Sirol. Teledu Cylch Cyfyng yw un o'r dulliau a ddefnyddir mewn ymdrechion i ddelio ag achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad manwl hefyd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a oedd yn cynnwys y newyddion eithaf calonogol mai Merthyr Tudful, allan o Ranbarth y Gogledd gyfan (Merthyr Tudful a Rhondda, Cynon a Thaf), Merthyr Tudful oedd â'r ganran isaf o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr adroddwyd amdani ar (21%) a bod gostyngiad cyffredinol wedi bod mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar draws Rhanbarth y Gogledd o 6%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Derbyniwyd adroddiadau ar brosiectau parhaus cyffrous a gynlluniwyd i adfywio'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r wasg a'r cyfryngau'n gyflym i bortreadu Merthyr Tudful yn nhermau negyddol. Yn aml, canmolodd y Pwyllgor gwaith yr Adran o ran denu menter newydd i'r Fwrdeistref Sirol; yn fwyaf nodedig:

- Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa;
- Canolfan Rock UK Summit;
- Parc Beiciau Cymru;
- Datblygiad Twnnel Merthyr–Abernant; a
- Datblygiad Gorsaf Fysiau Merthyr Tudful.

Ffurfiodd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad Grŵp Gorchwyl i ymchwilio i un o'r cwynion mwyaf y mae cynghorwyr yn ei gael – pla llygod mawr. Ystyriodd yr un Grŵp Gorchwyl gyfraddau ailgylchu. Cyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Pwyllgor Craffu Adfywio ar gyfer sylwadau gan y Cynghorydd D Sammon, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad. Dywedodd y Cynghorydd D Sammon fod llawer o'r pynciau dan sylw ynghylch gwaith y Pwyllgor Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd a chroesawodd fewnbnw gan y grŵp hwn cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhellion yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl.

Mae pob cynghorydd, fel llawer o drigolion y Fwrdeistref Sirol, yn ymwybodol iawn o lefel digartrefedd. Clywodd y pwyllgor fod y cynnydd mewn digartrefedd yn deillio o amrywiaeth o ffactorau megis lefelau rhentu yn y sector rhentu preifat, diffyg sylweddol o lety un gwely yn y sector tai cymdeithasol, polisi Llymder a Diwygio Lles Llywodraeth San Steffan. Yn 2014 priodolodd Llywodraeth Cymru lefel uchel effaith Diwygio Lles ym Merthyr Tudful i'r ffaith bod bron i 25% o'r boblogaeth 16-64 oed yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio. Nid yw colli incwm yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal ar draws y Fwrdeistref, Merthyr Tudful sydd â'r pumed uchaf yng Nghymru o'i dinasyddion yn y carchar.

Mae dyletswyddau awdurdod lleol sy'n o ran pobl ddigartref yng Nghymru wedi'u cynnwys yn Neddf Tai Rhan 2 (Cymru) 2014 (y "Ddeddf"). Rhwng mis Hydref 2018 a mis Hydref 2019, roedd y cyngor ond yn gallu diwallu 7% o angen llety un gwely. Mae hyn yn cyfateb i ond 49 o aelwydydd. Er mwyn darparu cyd-destun dros yr un cyfnod, roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddyletswydd statudol dan Adran 75 o'r "Ddeddf" i 31 o bobl unigol. Gadawodd hyn ddim ond 18 eiddo i fodloni ein dyletswyddau Adran 73 lle'r oedd 261 o bobl sengl yn dod o dan y ddyletswydd hon. Mae'n destun pryder, heb unrhyw fai ar yr awdurdod lleol a'i staff, nad yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae hyn yn amlwg yn anghynnaladwy.

Cafodd y Pwyllgor ei gyflwyno â Chynllun Gweithredu Strategaeth Ddigartrefedd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi sut yr oedd yr Adran yn bwriadu gwella'r sefyllfa. Yr amcanion oedd cynyddu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a'r cymorth sydd ar gael, gwella gweithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn atal digartrefedd, sicrhau bod llety priodol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, sicrhau bod cymorth priodol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddigartrefedd, cynnal a datblygu gwaith partneriaeth a chyfeiriad strategol. Cymerodd cynrychiolydd person ifanc y Pwyllgor ran allweddol yng ngwaith y grŵp hwn, gan ddod â safbwynt newydd i'r drafodaeth.

Mae gan yr Adran Adfywio gylch gwaith eang iawn a thrwy gydol y flwyddyn cyflwynodd adroddiadau eraill i'r Pwyllgor. Y rhai uchod yw'r adroddiadau "pennawd"! Mae ei gylch gwaith yn ymestyn o Adfywio Economaidd ac Amgylcheddol ac mae ffrwyth ei lwyddiant yno i bawb ei weld, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol mawr y mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu. Mae'r Adran yn delio'n effeithiol â'i holl heriau ac mae ganddi staff rhagorol a hoffwn fynegi fy niolchgarwch am y cyfan a wnânt a sut y maent wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Craffu Adfywio. Ni soniaf yn fwriadol am unrhyw enwau oherwydd byddai gwneud hynny'n awgrymu bod rhai yn well nag eraill. Yn fy marn i, mae pawb yn yr Adran yn rhoi eu holl amseroedd heriol iawn gyda dim ond adnoddau cyfyngedig. Diolch i bob un ohonynt. Hoffwn ddiolch hefyd i'r staff sy'n cefnogi'r swyddogaeth graffu.

Nid fi yw Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio mwyach a hoffwn estyn fy nymuniadau gorau i'm holynydd: y Cynghorydd Gareth Lewis.

7.3 Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019/2020

Mae rôl a chylch gwaith pwyllgor craffu'r Pwyllgor Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd yn canolbwyntio ar feysydd fel datblygu economaidd; treftadaeth a diwylliant twristiaeth; tai a digartrefedd; a gwasanaethau diogelwch cymunedol a diogelu'r cyhoedd.

Dros y flwyddyn ddinesig 2019-20 mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau ar y pynciau canlynol:

- Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa;
- Ailffocysu maes gwasanaeth teledu cylch cyfyng;
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Hunanwerthuso corfforaethol – sy'n benodol i Adfywio Cymunedol; Diogelu'r Cyhoedd a Thai;
- Datblygu Cyrchfannau;
- Canfyddiadau ymweliad arholi Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach);
- Camddefnyddio Sylweddau;
- Strategaeth Ddigartrefedd y Cyngor;
- Parhau i Ddatblygu Canol y Dref a'r Economi Nos; ac
- Uwchgynllun Canol y Dref.

7.4 Gwaith ychwanegol a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019/2020

Ar 30^{ain} Hydref 2018, roedd y Pwyllgor wedi cytuno i greu grŵp gorchwyl i gynnal adolygiad annibynnol yn canolbwyntio ar ddigartrefedd. Yn ystod 2019-2020, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd rhwng aelodau'r grŵp gorchwyl; gyda sesiynau â ffocws hefyd yn cael eu cynnal gyda phobl ifanc o Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful i drafod y mater hwn, gyda'r nod o sicrhau eu barn ar y pwnc hwn a nodi atebion posibl a fyddai'n ymdrin â hyn yn y tymor hwy.

7.5 Sylwadau'r Cadeirydd: Y Cynghorydd Gareth Lewis



Cadeirydd:
Y Cyng. Gareth Lewis
Mawrth 2020 – Mai
2021

Deuthum yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd ychydig cyn cyfyngiadau cloi pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020 ac felly, hyd yma, nid wyf wedi cael cyfle i gadeirio cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwn.

Wrth symud ymlaen, fy mwriad i'r pwyllgor yw craffu ar wasanaethau lle mae Covid-19 wedi effeithio fwyaf ar y rheini. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i'r rhai y mae digartrefedd, trais domestig ac iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Mae Covid wedi arwain at newidiadau polisi Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn ac mae hyn wedi cynyddu'r angen am ei graffu effeithiol.

Edrychaf ymlaen at gadeirio'r pwyllgor am weddill y flwyddyn Ddinesig a gweithio ochr yn ochr ag aelodau'r pwyllgor i sicrhau ein bod yn her fuddiol a chynhyrchiol i benderfyniadau'r awdurdod lleol.

7.6 Edrych ymlaen at 2020 / 2021

O ran adfywio, mae gan ddau brosiect penodol y potensial i drawsnewid y darlun economaidd-gymdeithasol hirdymor o'r Fwrdeistref Sirol ac ardal ehangach Cymoedd De Cymru. Gall Metro De Cymru ailwampio trafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol ac o'r diwedd darparu system drafnidiaeth gwbl integredig, a ddylai yn ei thro ysgogi buddsoddiad i ardal CBS Merthyr Tudful. Tra ar yr un pryd, mae Sefydliad Cyfarthfa arfaethedig yn gallu sicrhau bod Merthyr Tudful yn dod yn gyrchfan ddiwylliannol fyd-enwog sy'n manteisio ar ein treftadaeth ddiwydiannol hanesyddol. Mae'r ddau brosiect yn gyffrous ac yn uchelgeisiol, a'm bwriad yw y bydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd yn craffu'n adeiladol ar ddilyniant y ddwy fenter.

8.0 **PWYLLGOR CRAFFU: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

8.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys chwe Chynghorydd ynghyd â phedwar aelod cyfetholedig (1 aelod o'r sector gwirfoddol; 1 aelod o Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful; 2 aelod cyhoeddus, di-bleidlais).

8.2 Sylwadau'r Cadeirydd



Cadeirydd:
Y Cyng. Bill Smith

"Datblygwyd Blaenraglen Waith Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 i ganolbwyntio a chraffu ar y gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cyfnod llymder hwn. Cydnabu'r pwyllgor fod y gwasanaethau a'r swyddogion o dan fwy a mwy o bwysau i gyflawni eu nodau a'u hamcanion gyda phob blwyddyn sy'n mynd heibio ac mae'n dod yn fwyfwy heriol oherwydd y llymder parhaus. Felly, yr ydym wedi ymdrechu i fod yn bwyllgor craffu mwy cadarn a phenodol i gael y canlyniadau gorau o'r gwasanaethau.

Yn 2019/20 ffurfiodd Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ran o'r cylch hunanarfarnu a gweithredodd fel cyfaill beirniadol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Croesawodd yr aelodau'r dull integredig newydd hwn o ymdrin â'r broses hunanarfarnu a'r cyfle i wneud awgrymiadau, arsylwadau a herio dyfarniadau gwasanaethau pan fo angen.

Wrth i dimau'r Gwasanaethau Cymdeithasol weithio'n rhanbarthol ar nifer o strategaethau megis: Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf; y Bwrdd Diogelu; a Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd, mae'r pwyllgor craffu hefyd wedi croesawu nifer o adroddiadau rhanbarthol gan sefydliadau cydweithredol. Mae'r aelodau'n cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer canlyniadau llwyddiannus i'n cymunedau yn ystod y cyfnod llymder hwn, a byddant yn parhau i annog, monitro a chefnogi'r ffordd hon o weithio. Fodd bynnag, mae

pellter i'w deithio o hyd i wella'r prosesau adrodd rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r aelodau craffu o ran materion Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod 2019/20 mae'r aelodau craffu wedi tynnu sylw at nifer o adroddiadau a gyflwynir i'r pwyllgor nad oes ganddynt y wybodaeth benodol sy'n ofynnol gan yr aelodau i graffu'n effeithiol ar eu meysydd a'u perfformiad. Mae hyn wedi arwain at yr aelodau a'r swyddogion yn cydweithio i wella ansawdd yr adroddiadau a'r wybodaeth a gyflwynir.

Yn anffodus, mae Merthyr Tudful wedi gweld nifer o ddigwyddiadau digynsail yn 2020, fel Storm Dennis a Storm Jorge ym mis Chwefror, a achosodd ddifrod anffodus i lawer o ardaloedd yn y fwrdeistref, a'r pandemig byd-eang (Covid-19), a arweiniodd at gloi'r wlad gyfan o fis Mawrth. Mae'r holl ddigwyddiadau hyn wedi cael effaith ar unwaith ar ardal y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i hadnoddau. Mae'r digwyddiadau digynsail hyn hefyd wedi effeithio ar Bwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod yn rhaid i mi benderfynu canslo nifer o bwyllgorau a gweithdai a drefnwyd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn galluogi swyddogion allweddol i flaenoriaethu eu hymrwymadau a'u hadnoddau er mwyn rhoi cymorth hanfodol i'r cymunedau a'i thrigolion. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn bwriadu blaenoriaethu unrhyw adroddiadau allweddol, y trefnwyd eu cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn, ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cydweithwyr craffu ac Aelodau'r Cabinet, Swyddogion yr Awdurdod Lleol a'm partneriaid am eu cefnogaeth barhaus".

8.3 Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019/2020

Rhai o'r pynciau y craffwyd arnynt ac a heriwyd fel rhan o'r Flaenraglen Waith yw:

- Ad-drefnu Cartrefi
- Hunan-werthuso Corfforaethol o ran Byw yn Dda
- Adroddiad Blynnyddol Gofalwyr Ifanc (2018/19)
- Bwrdd Diogelu (Adroddiad Blynnyddol a Chynllun (2018/19) a chynnydd yn ystod 2019/20)
- Arolygiad Iechyd Meddwl – Adborth a Chynllun Gweithredu
- Adroddiad Blynnyddol Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf 2018/19
- Strategaethau Gwasanaethau Plant
- Strategaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Adroddiad Blynnyddol ar Wasanaethau Cymdeithasol 2018 / 2019
- Datganiadau Sefyllfa'r Gyllideb
- Diweddariad Canol Blwyddyn ar Adroddiad Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cynnydd ar y Cynllun Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol (2019/20)
- Diweddariad Canol Blwyddyn ar Ofalwyr Ifanc
- Adroddiad Blynnyddol Cydweithredol Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd 2018/19 a chynnydd 2019/20 hyd yma
- Cynnydd o ran y Bwrdd Rhianta Corfforaethol
- Strategaeth Llety'r Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer Pobl Hŷn ac Oedolion ag Anabledd Dysgu 2020-2030

8.4 Gwaith ychwanegol a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2019/2020

Yn ystod 2019/20, cydweithiodd Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i fabwysiadu dull gwahanol o hyfforddi a sesiwn ymwybyddiaeth a chyflwynodd sesiynau hyfforddi ar ffurf gweithdy ar y cyd. Yn ystod y sesiynau gweithdy hyn, roedd swyddogion o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r adran Ddysgu yn gallu dangos ac egluro beth oedd eu gwasanaeth penodol yn darparu i feysydd a oedd yn effeithio ar Bwyllgorau Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol, megis 'Plant sy'n Derbyn Gofal'. Roedd y dull integredig hwn o hyfforddi yn caniatáu i'r aelodau ddatblygu a chryfhau ac ehangu eu gwybodaeth yn y meysydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu, lle nad yw'r cyfle hwn efallai wedi cyflwyno ei hun o'r blaen. Cafodd y gweithdai hyn eu hymestyn a'u hagor hefyd i bob aelod etholedig.

8.5 Edrych ymlaen at 2020 / 2021

Mae'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi llwyddo i fabwysiadu mwy o arferion cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol (e.e. Adroddiad Blynnyddol a Chynllun y Bwrdd Diogelu, Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf, Cynllun Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol ac ati) ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ddod i rym ym mis Ebrill 2016. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Sicrwydd a Gwella (a benodwyd gan Lywodraeth Cymru) wedi nodi bod angen i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol gynyddu ei gwydnwch. Mae hyn wedi bod yn arbennig o heriol i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020 wrth orfod darparu gwasanaethau i'n trigolion, tra'n ymateb yn gyntaf i lifogydd mawr ac yna pandemig byd-eang. Mae'r gwasanaeth yn gorfod dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu mwy am lai, oherwydd cyfyngiadau difrifol ar gyllid ac mae'n debygol y bydd pwysau ychwanegol o lwythi achosion newydd yn cael eu hadrodd yn dilyn rhyddhau o gyfyngiadau cloi Covid-19. Felly, wrth symud ymlaen, mae'r pwyllgor wedi gofyn am fanylion penodol am yr holl flaenoriaethau rhanbarthol er mwyn sicrhau bod strategaethau'r Cyngor a strategaethau rhanbarthol yn cael eu halinio'n effeithiol a bod synergedd. Yn ogystal â hyn, bydd Aelodau Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gynnig her fel cyfaill beirniadol ac yn cefnogi'r gwasanaeth gystal ag y gallwn er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy i drigolion Merthyr Tudful ar gyfer y dyfodol.

Mae Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn ymwybodol iawn, o ganlyniad i bandemig byd-eang Covid-19, y bydd yn rhaid i'r 'normal newydd' a thirwedd y swyddogaeth graffu newid ac addasu i fod yn fwy hyblyg gyda'i brosesau gweithio. Felly, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y bydd y ffordd newydd hon o weithio yn llwyddiant i'r Cyngor a'r Gymuned.

10.0 CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CWM TAF

- 10.1 Yn unol â gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ar ôl ystyried gofynion Adran 58 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru), 2011 a chanllawiau statudol cysylltiedig, sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys

Aelodau etholedig Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

- 10.2 Mae aelodaeth Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn cynnwys 10 Aelod etholedig (5 o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a 5 o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) ynghyd â nifer o aelodau cyfetholedig. Yn 2019/2020, cynrychiolodd yr aelodau cyfetholedig y Bwrdd Iechyd Lleol; Cyngor Iechyd Cymunedol; y Gwasanaeth Ambiwlans yn ogystal â chynrychiolydd dinasyddion o Fwrdeistrefi Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
- 10.3 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn yn amlinellu y byddai gofynion cymorth sy'n gysylltiedig â Chyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn cael eu rhannu ar y cyd gan gyngorau bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Byddai rôl Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hefyd yn cael eu rhannu ar sail gylchol (e.e.) yn ystod 2019-2020, cymerodd y Cyngorydd Jill Bonetto (Cyngor RhCT) y Gadair, gyda'r Cyngorydd Skinner yn cymryd rôl yr Is-gadeirydd; gyda RhCT yn darparu'r holl gymorth craffu perthnasol.
- 10.4 Ar gyfer y cyfnod 2019/2020; Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a oedd yn gyfrifol am ddarparu cymorth i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, yn unol â'r cylch y cytunwyd arno.
- 10.5 Yn ystod 2019-20; trefnwyd pedwar cyfarfod y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a chynhaliwyd tri ohonynt. Bu'r Pwyllgor yn adolygu, craffu a thrafod nifer o bynciau yn ystod 2019/2020; rhestrir y rhain isod:
- Diweddariadau cynnydd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (ym mhob cyfarfod);
 - Diweddariadau cynnydd gan Fwrdd Partneriaeth Strategol Cwm Taf (ym mhob cyfarfod);
 - Diweddariad Labordy Byw;
 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ragnodi Cymdeithasol; a
 - Diweddariad Canolfan Gymunedol Glynrhedynog
- 10.6 Wrth i flwyddyn ddinesig 2019/2020 ddod i ben, aeth y wlad i gyfnod cyfyngiadau cloi o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Penderfynwyd, er mwyn sicrhau y glynwyd wrth ofynion y cyfyngiadau cloi hyn; Cyngor Rhondda Cynon Taf fyddai'n parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu'r swyddogaeth gymorth ar gyfer Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2020/2021.

11.0 CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

- 11.1 Mae gan y Cyngor gynrychiolaeth Aelod Etholedig ar Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Borgen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Tîm Perfformiad a Chraffu yn cefnogi ein cyfraniad i'r pwyllgor hwn.

12.0 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD MEWN GWAITH CRAFFU

- 12.1 Er bod aelodau Craffu, aelodau'r Cabinet a swyddogion y Cyngor yn cyfrannu'n rheolaidd i weithgareddau craffu, rydym hefyd yn croesawu presenoldeb a mewnbwn y cyhoedd yn ein cyfarfodydd.
- 12.2 Mae cynnwys trigolion lleol, sefydliadau cymunedol a phartneriaid yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae pwyllgorau craffu wedi ymrwymo i ymateb i farn a phryderon preswylwyr. Hoffem annog trigolion a sefydliadau i fynychu a chyfrannu at waith craffu er mwyn sicrhau'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl. Y bwriad yw gwneud yn siŵr ein bod yn delio â'r materion sydd bwysicaf i'r gymuned ac sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd.
- 12.3 Mae'r Cyfansoddiad yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd fynychu a siarad yn ystod cyfarfodydd craffu. Gyda hyn mewn golwg, mae canllaw wedi cael ei gynhyrchu ar sut y gall hyn weithio'n ymarferol. Mae'r canllaw yn rhoi manylion am sut i gyflwyno cynrychiolaeth ysgrifenedig ar eitem ar yr agenda a'r terfyn amser i'r aelod o'r cyhoedd cyflwyno'u hachos. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd ddweud wrth y Cyngorwyr yn uniongyrchol am y pethau sy'n peri pryder iddynt.
- 12.4 Os yw aelodau o'r cyhoedd yn teimlo bod pwnc y dylai Craffu edrych arno, gallant roi gwybod i ni drwy gwblhau Ffurflen Gais am Graffu neu drwy e-bostio scrutiny@merthyr.gov.uk

13.0 EDRYCH YMLAEN AT FLWYDDYN DDINESIG 2020/20201

- 13.1 Er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach mewn perthynas â'r swyddogaeth graffu, bydd Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau'r Cabinet a swyddogion sydd wedi mynychu cyfarfodydd craffu dros y 12 mis diwethaf, yn cymryd rhan mewn ymarfer gwerthuso/hunanasesu. Bydd canfyddiadau hyn yn helpu i nodi arfer da; a galluogi Pwyllgorau i ystyried meysydd i'w datblygu ymhellach; gan eu galluogi i bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella.
- 13.2 Pan mae'r blaenoriaethau wedi'u pennu; a gan ddefnyddio'r model 'Strategaeth ar Dudalen' a ddefnyddir ar draws y Cyngor; bydd y Pwyllgorau'n datblygu eu Strategaeth ar Dudalen eu hunain, a fydd yn eu galluogi i fonitro'u heffaith yn fwy effeithiol; tra hefyd yn sicrhau ffynhonnell dystiolaeth i gefnogi adolygiad yn y dyfodol gyda'r nod o wella trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn barhaus.

14.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 13.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

14.0 ASESIAID EFFAITH INTEGREDIG

	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	Ddim yn berthnasol
1. Amcanion Llesiant Merthyr Tudful	0 o 4	0 o 4	4 o 4
2. Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy - Sut ydych chi wedi ystyried y pum ffordd o weithio: • Tymor Hir • Atal • Integreiddio • Cydweithredu • Cyfranogiad	0 o 5	0 o 5	5 o 5
3. Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol (<i>gan gynnwys yr iaith Gymraeg</i>)	0 o 10	0 o 10	10 o 10
4. Bioamrywiaeth	0 o 1	0 o 1	1 o 1
<u>Crynodeb:</u> Mae'r Adroddiad (Adroddiad Craffu Blynnyddol 2019 / 2020) er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw gynigion i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Byddai unrhyw ddatblygiadau neu gynigion y cyfeirir atynt yn sylwadau'r Cadeirydd eisoes wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (cyn mis Medi) neu'r Asesiad Effaith Integredig ar sail unigol, fel y bo'n briodol.			

ELLIS COOPER
DIRPRWY BRIF WEITHREDWR

Y CYNGHORYDD ANDREW BARRY
AELOD CABINET DROS LYWODRAETHU A
GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

PAPURAU CEFNDIR			
Teitl y Ddogfen(au)	Dyddiad y Ddogfen(au)	Lleoliad y Ddogfen	
A yw'r adroddiad yn cynnwys unrhyw fater a allai effeithio ar Gyfansoddiad y Cyngor?			Nac Ydy

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Tîm Rheoli Corfforaethol mewn perthynas â phob cynnig(ion) ac argymhelliad(au) a nodir yn yr adroddiad hwn.